**PWYLLGOR CRONFA BENSIWN CLWYD**
**DYDD MERCHER, 20 CHWEFROR 2019**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cronfa Bensiwn Clwyd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA Dydd Mercher, 20 Chwefror 2019

**YN BRESENNOL: Cynghorydd Dave Hughes (Cadeirydd)**
Cynghorwyr Haydn Bateman, Billy Mullin.

**AELODAU CYFETHOLEDIG:** Y Cynghorydd Huw Jones (Cyngor Sir Ddinbych), Y Cynghorydd Andrew Rutherford (Cynrychiolydd Cyflogwyr Cynlluniau Eraill), Mr Steve Hibbert (Cynrychiolydd Aelodau'r Cynllun) a'r Cynghorydd Trevor Bates (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – yn lle'r Cynghorydd Nigel Williams).

**HEFYD YN BRESENNOL (FEL ARSYLWYR):** Mr Mark Owen (Cynrychiolydd Cyflogwyr Bwrdd y Gronfa Bensiynau), Mr Phil Pumford (Cynrychiolydd Aelodau Cynllun Bwrdd y Gronfa Bensiynau).

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Nigel Williams, y Cynghorydd Ted Palmer a'r Cynghorydd Ralph Small.

**HEFYD YN BRESENNOL:**

Panel Ymgynghorol yn cynnwys: Colin Everett (Prif Weithredwr ), Philip Latham (Rheolwr Cronfa Bensiynau Clwyd), Gary Ferguson (Rheolwr Cyllid Corfforaethol), Karen McWilliam (Ymgynghorydd Annibynnol – Aon Hewitt), Kieran Harkin (Ymgynghorydd Buddsoddi'r Gronfa – JLT Group), Paul Middleman (Actiwari'r Gronfa – Mercer).

Swyddogion/Ymgynghorwyr yn cynnwys: Debbie Fielder (Is Bennaeth Cronfa Clwyd), Kath Meacock (Prif Swyddog Pensiynau Cyfathrebu a Rheoliadau), Kerry Robinson (Tîm Cyfathrebu â Chyflogwyr), Nick Buckland (Ymgynghorydd Buddsoddi'r Gronfa– JLT Group), a Nikki Gemmell (Ymgynghorydd Actiwarial – Mercer – cymryd cofnodion).

Croesawodd y Cadeirydd Kath Meacock i gyfarfod y Pwyllgor. Dywedodd wrth y Pwyllgor hefyd na fyddai Helen Burnham yn dychwelyd i'w swydd fel Rheolwr Gweinyddu Pensiynau ond y byddai Kath Meacock a Kerry Robinson ar gael ar gyfer yr eitemau gweinyddol.

42. **DATGANIADAU O GYSYLLTIAD (yn cynnwys gwrthdaro buddiannau)**

Nododd y Cadeirydd y byddai'n rhaid i'r holl ymgynghorwyr adael yr ystafell ar gyfer eitem 14 oherwydd gwrthdaro buddiannau. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau pellach.

43. **COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2018.

Cyfeiriodd Mr Hibbert at dudalennau 5 a 6 ynglŷn â'r cwestiwn roedd wedi ei holi am beth fyddai'n digwydd pe bai'r Gronfa ar ei cholled bob ffordd. Dywedodd nad oedd yn credu bod ateb wedi ei roi a theimlodd fod angen un er mwyn i'r Pwyllgor gyflawni eu dyletswyddau. Yn benodol, os rhoddir cynnig i'r Pwyllgor sy'n cynnig enillion is gyda ffi uwch nag o dan reolwr presennol Cronfa Bensiynau Clwyd, pa gamau all y Pwyllgor eu cymryd o ystyried y canllawiau statudol a chyfrifoldeb ymddiriedol?

Nododd Mr Latham mai un o brif amcanion cyfuno yw gweithredu strategaeth fuddsoddi'r Gronfa mewn ffordd sy'n rhoi gwell enillion wedi eu haddasu yn ôl risg gyda ffioedd is o'i gymharu â buddsoddi fel Cronfa unigol. Fodd bynnag, nid y ffioedd yw'r rhan bwysicaf a does dim sicrwydd gyda buddsoddiadau. Roedd Mr Latham yn gobeithio na fyddai'r Gronfa yn canfod ei hun mewn sefyllfa lle byddai ar ei cholled ymhob ffordd.

Cadarnhaodd Mr Everett y byddai penderfyniadau o ran trosglwyddo asedau ai peidio yn cael eu gwneud fesul achos, ac na fyddai'n cefnogi unrhyw achos lle nad oedd y cydbwysedd risgiau er lles gorau'r Gronfa. Nododd pe bai sefyllfa yn ymylol, yna byddai'n briodol dewis y datrysiad cyfuno.

Cyfeiriodd Mrs Fielder at dudalen 6 a chadarnhaodd ei bod wedi amlygu cynrychiolaeth y cynllun ar y JGC gyda'r Gweithgor Swyddogion. Cadarnhaodd Mrs Fielder y byddant yn anfon ymateb at y SAB ar ryw bwynt yn y dyfodol.

Cyfeiriodd Mr Hibbert y Pwyllgor at eitem 37 ar dudalen 12 a chadarnhaodd mai ei gwestiwn oedd a oedd y mater wedi effeithio Cronfeydd eraill, nid cyflogwyr yng Nghronfa Clwyd yn unig. Dywedodd Mrs McWilliam y byddai unrhyw Gronfeydd eraill sy'n defnyddio'r un feddalwedd yn debygol o fod â'r un broblem. Cadarnhaodd Mr Everett bod y broblem wedi ei uwch-gyfeirio gyda'r darparwr.

Diolchodd y Cadeirydd i Miss Fellowes am safon y cofnodion a ddarparwyd.

**<u>PENDERFYNWYD:</u>**

(a) Y gallai'r Cadeirydd dderbyn, cymeradwyo a llofnodi'r cofnodion.

## 44. <u>CYNLLUN BUSNES 2019/20 HYD AT 2021/22</u>

Nododd Mr Latham mai nod y cynllun busnes yw arddangos bod y Gronfa yn rheoli ei risgiau (ariannol a gweithredol) a pha adnoddau a ddefnyddir i wneud hyn. Nododd bod y rhan fwyaf o'r eitemau o fewn y cynllun busnes ar hyn o bryd yn rhai oedd yn mynd rhagddynt ac felly wedi eu cynnwys yng nghynllun y llynedd ar wahân i rai prosiectau pwrpasol.

Nododd Mr Latham bod y cynllun busnes yn cynnwys datganiad cenhadaeth y Gronfa ar gyfer y Gronfa ac amcanion polisïau a strategaethau allweddol y Gronfa.

Argymhellodd Mr Everett y dylent ychwanegu nod oedd yn ymwneud a risg penodol yn ymwneud â chydbwyso angen y Gronfa a'r gronfa *(pool)*, gan

nodi'r risgiau positif a negyddol o fewn o fewn y gronfa. Cytunodd Mr Latham a dywedodd y byddai angen diweddaru'r Datganiad Strategaeth Fuddsoddi hefyd.

Gofynnodd Mr Hibbert a fyddai gwaith gyda'r Actiwari ar y prisiad yn cael ei wneud bob pedair blynedd yn hytrach na phob tair blynedd. Dywedodd Mr Middleman bod hyn yn cael ei drafod a bydd yn destun ymgynghoriad ac felly dim ond unwaith bydd y newidiadau yn y Rheoliadau yn dod i rym y gellir ei ddiweddaru, felly mae'n gywir ar y funud mai cyfeirio at dair blynedd mae'r cynllun.

Cyfeiriodd Mr Latham y Pwyllgor at y pedwar pwynt bwled ar waelod tudalen 30. Nododd bod y pwyntiau uchaf ac isaf (yn ymwneud â thrawsnewid asedau i'r gronfa a gweithredu newidiadau strwythur buddion o ganlyniad i newidiadau cenedlaethol) yn ffactorau allanol sy'n effeithio'r Gronfa. Fodd bynnag, rhaid i'r Gronfa sicrhau eu bod yn parhau i weithio ar feysydd allweddol eraill (e.e. parhau i hyrwyddo ein cyfleusterau ar-lein a gorffen cyflwyno systemau gwell i gyflogwyr) gan fod risg bod y ffactorau allanol yn cymryd yr adnoddau i ffwrdd oddi wrth feysydd eraill.

Amlygodd Mr Latham dudalennau 31 a  32 sy'n dangos bod y Gronfa yn dal i fod â llif arian cadarnhaol ond bydd mwy o waith yn cael ei wneud ar y rhan hon fel rhan o'r prisiad actiwaraidd.

Gofynnodd Mr Hibbert am ffioedd rheolwyr y gronfa ac a fyddai werth cynnwys troednodyn yn egluro pa gyfran o'r ffioedd sydd wedi cynyddu o ganlyniad i dryloywder costau rheolwyr a pha rai sydd o ganlyniad i gostau ychwanegol. Gallai'r troednodyn egluro pam bod y ffioedd yn cynyddu a beth mae'r Gronfa yn ei wneud am y peth, gan ei fod yn gwybod bod rhesymau yn bodoli nad ydynt yn cael eu hegluro yma. Cytunodd Mrs Fielder gyda'r sylw hwn. Cadarnhaodd Mrs Fielder bod y rhan fwyaf o gynyddiadau ffioedd o ganlyniad i dryloywder costau rheolwyr lle maent yn datgan yr holl gostau o ystyried bod llawer nawr wedi eu cofrestru ar y cod tryloywder.  Nododd Mrs Fielder ei bod yn anodd amcangyfrif ffioedd perfformiad a bod costau trafodiadau yn tueddu i fod yn fach.

Mae llawer o waith yn mynd i mewn i'r rhifau hyn ac mae'r ffigyrau yn adlewyrchu'r cynnydd ym maint asedau'r Gronfa. Dywedodd Mr Hibbert mai ei farn ef yw bod amcangyfrifon ffioedd Cronfa Bensiynau Clwyd yn well na beth mae'n arfer ei weld. Cytunodd Mrs McWilliam y byddai nodyn byr yn ddefnyddiol gan y byddai'n lleihau'r potensial am feirniadaeth gan drydydd parti pe bai'n egluro bod rhan sylweddol o'r cynnydd o ganlyniad i well tryloywder costau gan reolwyr.

Holodd y Cynghorydd Jones am y ffigyrau contractau allanol a gyllidir ar dudalen 32, sydd wedi cynyddu o £300,000 i £900,000. Cadarnhaodd Mr Latham nad cynnydd mewn costau yw hyn mewn gwirionedd. Y prif reswm yw bod Prosiect Apple wedi gohirio peth gwaith felly bydd rhai costau'n dod trwodd yn 2019/20 yn hytrach nag yn 2018/19. Felly mae gweddill y gyllideb 2018/19 sydd heb ei defnyddio wedi ei symud i 2019/20, sy'n ymwneud â chysoni GMP ac ôl-groniad prosiectau allanol.

Cyfeiriodd Mr Latham y Pwyllgor at dudalen 37 sy'n nodi dyddiadau hyfforddi a chynadleddau ar gyfer eu dyddiaduron ac awgrymwyd eu bod yn mynychu.

Yna amlygodd Mr Latham beth o'r tasgau allweddol yn ymwneud â llywodraethu. Nododd mai un yw datblygu cynllun parhad busnes ar ôl y profion parhad diweddar a gyflawnodd y tîm. Cytunodd Mr Everett y dylai'r gronfa bensiynau ddatblygu hyn fel rhan o waith y Cyngor ar barhad busnes.

Trafododd Mr Latham G6 a nododd bod y SAB wedi penodi Hymans i ystyried effeithiolrwydd llywodraethu mewn awdurdodau gweinyddu Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol, yn arbennig o ran osgoi gwrthdaro rhwng cyfrifoldebau'r gronfa bensiwn a chyfrifoldebau eraill awdurdodau gweinyddu. Nodwyd nad yw'r prosiect yn cael ei gyfeirio ato bellach fel bod ar wahân. Bydd holiadur yn cael ei anfon at gronfeydd eraill i gasglu eu barn o ran a oes angen gwahanu.

Gofynnodd Mr Hibbert am yr adolygiad o aelodau Bwrdd lleol a chyfetholedig, yn enwedig cynrychiolydd aelodau'r cynllun ar gyfer yr undebau llafur ac a oes modd ailbenodi'r cynrychiolydd presennol, yn ddibynnol ar y prosesau democrataidd arferol. Cadarnhaodd Mrs McWilliam mai penderfyniad i'r undebau llafur ydy hynny, a byddant yn cael eu holi i enwebu unigolyn, a gallant ddewis ail enwebu'r cynrychiolydd presennol pe dymunant wneud hynny.

Trafododd Mrs Fielder yr eitemau cyllido a buddsoddi o fewn y cynllun busnes. Mae'r Gronfa eisiau adolygu ei pholisi buddsoddi cyfrifol. Nodwyd y bydd llif arian a hylifedd yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses werthuso pan fydd cyfraniadau'n cael eu hadolygu. Bydd adolygiad y prisiad actiwaraidd a'r strategaeth fuddsoddi yn cael ei gynnal eleni ac mae'r gwaith ar gyfuno asedau yn mynd rhagddo. Bydd Mrs Fielder yn parhau i weithio ar y fframwaith rheoli risg cyflogwyr. Fe wnaeth Mrs Fielder grynhoi drwy ddweud y disgwylir y bydd yn flwyddyn brysur arall i'r Gronfa a'r ymgynghorwyr.

Trafododd Ms Meacock yr eitemau gweinyddol allweddol; maent yn datblygu polisi gordaliad / diffyg talu sydd hefyd yn ofynnol fel rhan o'r broses cysoni GMP ac adolygiad y strategaeth weinyddu a fydd yn cael ei chymeradwyo fis Mehefin 2019.

Mae eitem A6 yn ymwneud â rheoliadau diwygio gan MHCLG sy'n newid yr hawliau i rai budd-daliadau partneriaid pan fydd aelod o'r cynllun wedi marw. Mae hwn yn newid sydd wedi ei ôl-ddyddio ac felly rhaid ail ymweld ag achosion o fudd-daliadau marwolaeth blaenorol i weld a ddylid cynyddu neu leihau eu taliad. Bydd y prosiect hwn yn cael ei drin unwaith bydd Prosiect Apple wedi ei gwblhau.

Mae eitem A7 yn ymwneud ag aelodau lle mae aelodau cynllun y Gronfa wedi symud a lle nad yw'r Gronfa'n gwybod beth yw eu cyfeiriad newydd. Mae'n bosib eu bod yn cyrraedd oedran ymddeol felly mae angen dod o hyd iddynt. Yn ogystal, mae'r Rheoliadau'n nodi bod yn rhaid talu pob ad-daliad o fewn 5 mlynedd i ddyddiad gadael aelodau. Gan fod y diwygiad wedi digwydd ers 1 Ebrill 2014, bydd yn bwynt 5 mlynedd ar y cynllun fis Ebrill 2019 felly rhaid ceisio dod o hyd i'r aelodau hynny cyn i'r cyfnod ddod i ben.

Mae eitem A12 yn cyfeirio at y gwaith parhaus o gyflwyno iConnect sydd bellach â llawer o weithwyr arno gan gynnwys dau o'r prif Gynghorau. Wrth symud ymlaen bydd Mrs Robinson a'r Tîm ELT yn gweithio gyda CBS Wrecsam i drosglwyddo ymlaen i iConnect.

Nododd Mrs Robinson bod hanner y tîm ELT ar hyn o bryd yn gweithio ar Brosiect Apple a bod yr hanner arall yn gweithio drwy'r achosion blaenoriaeth, er enghraifft achosion marwolaethau ac ymddeoliadau lle mae angen taliad. Maent hefyd wedi bod yn gweithio gydag iConnect i CBS Wrecsam. Nododd Mrs Robinson bod ystyried a allai unrhyw weithwyr eraill, yn ogystal â CBS Wrecsam a Chyngor Sir y Fflint fanteisio o gymryd y gwasanaethau a gynigir gan y tîm ELT yn amcan hir dymor arall.

Gofynnodd Mr Hibbert a oedd paragraff ar fenthyg stoc i'w gynnwys yn Natganiad y Strategaeth Fuddsoddi. Cadarnhaodd Mr Latham bod hyn eisoes wedi ei gynnwys.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r cynllun busnes yn Atodiad 1 sy'n ymwneud â'r cyfnod rhwng 2019/20 a 2021/22 yn ddibynnol ar ychwanegu amcan yn ymwneud â chyfuno asedau a nodyn yn egluro'r cynnydd yn ffioedd y rheolwyr buddsoddi.

45. **CYFUNO BUDDSODDIADAU YNG NGHYMRU**

Cyflwynodd Mr Latham ar yr eitem hon ar yr agenda oedd yn cynnwys pedair prif adran; buddsoddi cyfrifol, benthyg stoc, canllawiau statudol a diweddariad cyffredinol ar gyfuno:

- Buddsoddi cyfrifol – ar hyn o bryd mae polisi cynaliadwyedd gan y Gronfa o fewn yr ISS. Mae sesiwn hyfforddi ar gyfer y Pwyllgor ar 20 Mawrth i drafod beth mae'r Gronfa yn ei wneud ar hyn o bryd o ran buddsoddi cyfrifol a hefyd pa arferion gorau oedd yn y maes hwn. Bydd hefyd yn cynnwys sesiwn ar beth mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ei wneud yn y maes hwn.

  Cyfeiriodd Mr Latham y Pwyllgor at dudalen 117 a nododd y disgwylir mwy o ganllawiau ar lefel genedlaethol gan y SAB ar fuddsoddi cyfrifol. Y prif bwrpas yw darparu canllawiau ar beth ddylai'r cronfeydd fod yn ei wneud gan y dylent allu darparu polisïau buddsoddi cyfrifol yr holl gronfeydd. Gall hyn fod yn anodd gan y gallai pob cronfa fod a'i bolisi ei hun a gallant fod yn dra gwahanol.

  Mae'r Bartneriaeth yn datblygu polisi buddsoddi cyfrifol i'r Gronfa sy'n cael ei ddrafftio gyda Hymans fel yr ymgynghorydd. Mae Hymans wedi cynhyrchu holiadur i gasglu credoau buddsoddi'r Gronfa o fewn y gronfa ar fuddsoddi cyfrifol. Mae Hymans eisiau cael dau ymateb, un o safbwynt swyddogion ac un gan Gadeirydd y Pwyllgor yn seiliedig ar farn y Pwyllgor.

  Dywedodd y Cynghorydd Jones y byddai'n well ganddo petai'r Swyddogion yn ymateb erbyn y dyddiad cau gan eu bod yn deall buddsoddi cyfrifol yn well, fodd bynnag awgrymodd y dylai'r Pwyllgor ymateb ar ôl sesiwn hyfforddi 20

Mawrth pan fydd ganddynt well dealltwriaeth. Roedd Mr Everett a'r Pwyllgor yn cytuno gyda'r cynnig hwn.

- Benthyg Stoc - Trafododd Mr Latham yr argymhelliad i ganiatáu'r Bartneriaeth i gymryd rhan mewn benthyg stoc. Mae'n rhaid i'r wyth cronfa o fewn y Bartneriaeth gytuno iddo neu ni fydd modd ei symud ymlaen. Mae chwech o'r cronfeydd eisoes wedi bod drwy eu Pwyllgorau, sydd wedi cytuno i'w ganiatáu. Mae gan y cronfeydd eraill lawer o ecwiti a bydd benthyg stoc felly yn cael mwy o effaith. Mae hyn yn fach ei effaith ar gyfer Cronfa Bensiynau Clwyd gan mai dim ond dyraniad 4% sydd ganddynt o ran ecwitïau byd-eang, sy'n golygu mai'r incwm disgwyliedig fydd £25,000 y flwyddyn o fenthyg stoc.

  Dywedodd Mr Latham wrth y pwyllgor mai benthyg stoc yw pan fydd buddsoddwr yn benthyg stoc i drydydd parti fel eu bod yn cael perchnogaeth dros gyfnod o amser ac am hynny maent yn talu ffi i'r rhoddwr benthyciadau. Mae'r rhoddwr benthyciadau yn derbyn sicrwydd cyfochrog pe bai'r rhoddwr benthyciadau yn methu. Yn gyffredinol bydd y Bartneriaeth yn cael tua £1 miliwn o ran incwm. Fodd bynnag, mae'r buddsoddwr yn colli eu hawliau pleidleisio. I liniaru hyn yn rhannol gall y Bartneriaeth ddal 5% o gyfranddaliadau yn ôl ym mhob stoc er mwyn cadw'r bleidlais.

  Gofynnodd y Cynghorydd Mullin a oes unrhyw risgiau gwirioneddol i'r Pwyllgor boeni yn eu cylch. Dywedodd Mr Latham bod rhai risgiau mewn amgylchiadau eithriadol. Er enghraifft yn ystod argyfwng ariannol neu ddigwyddiadau hynod gan ei fod yn anodd adennill y stoc yn gyflym. Fodd bynnag, ni wnaeth y rheiny a ddewisodd alw'r stoc yn ôl weld llawer o golledion. Cadarnhaodd Mr Latham nad yw'n ymwybodol o broblemau gwirioneddol eraill gyda benthyg stoc.

  Gofynnodd y Cynghorydd Bateman beth fyddai'r sicrwydd cyfochrog. Cadarnhaodd Mr Latham mai asedau arian parod neu asedau incwm sefydlog yw'r rhain fel arfer, sy'n cael eu talu os ydynt yn methu rhoi'r stoc yn ôl.

  Gofynnodd Mr Hibbert a fyddai hyn yn fach ei effaith ar gyfer y Gronfa. Mynegodd Mr Hibbert bryderon am yr amrywiadau posib mewn asedau oherwydd bod buddsoddwyr yn symud stociau ar bwrpas drwy fenthyg stoc, a allai gostio mwy na'r budd posib o £25,000 o gymryd rhan mewn benthyg stoc o fewn y gronfa. Cytunodd y gellid cael enillion cadarnhaol yn yr hir dymor ond mynegodd bryderon am yr effaith ar y Gronfa yn y tymor byr - canolig. Amlygodd Mr Latham nad oes unrhyw dystiolaeth y byddai cymryd rhan yn gyrru gwerth stociau i lawr.

  Cytunodd Mr Harkin gyda'r ddau bwynt a nododd y dylai fod gan y gronfa bolisi ysgrifenedig ar sut bydd benthyg stoc yn gweithio i leihau'r posibilrwydd o'r hyn a nododd Mr Hibbert.

- Ymgynghori anffurfiol ar ganllawiau statudol – cadarnhaodd Mr Latham bod ymateb wedi ei ddrafftio i'r ymgynghoriad, gan ystyried barn ymgynghorwyr a Mr Everett. Y dôn gyffredinol yw bod y Pwyllgor yn cytuno gyda chyfuno ac yr hoffent elwa o'r buddion ond efallai nad cyfuno yw'r ateb bob amser. Mae'r

ymgynghoriad yn cau ar 28 Mawrth 2019 ond gofynnodd Mr Latham i'r Pwyllgor gytuno i ymateb yr ymgynghoriad yn y cyfarfod heddiw.

- Diweddariad cyffredinol ar y Bartneriaeth – Cadarnhaodd Mr Latham eu bod bellach wedi trawsnewid yr asedau byd-eang i'r gronfa a gallant bellach fesur y gost neu arbediad o ddefnyddio hwn gan ddefnyddio ffigyrau gan y rheolwr trawsnewid. Nododd Mr Latham bod y cyfarfod JGC diwethaf wedi ei ohirio oherwydd tywydd garw a bydd y cyfarfod nesaf ar 27 Mawrth 2019. Felly, ni fydd yr argymhelliad incwm sefydlog yn cael ei gynnwys nes cyfarfod mis Mehefin bellach. Bydd y trawsnewid bellach ar ôl Mehefin 2019.

- Amlygodd Mrs McWilliam y bydd angen i'r Gronfa sicrhau bod adrodd priodol yn cael ei dderbyn o'r gronfa o ran unrhyw asedau sy'n cael eu trawsnewid ac mae'n bwysig bod hyn yn darparu'r lefel o fanylion sydd ei angen ar y swyddogion a'r Pwyllgor, yr hyn maent wedi arfer ei dderbyn ar hyn o bryd gan JLT.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn nodi'r adroddiad ac yn trafod y cynnydd sy'n cael ei wneud gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru.

(b) Cytunodd y Pwyllgor y gall y Bartneriaeth gymryd rhan mewn Benthyg Stoc wedi pleidlais lle'r oedd pump o saith aelod yn cytuno gyda'r argymhelliad. Hefyd penderfynwyd y byddai pryderon y Pwyllgor yn cael eu hadrodd yn ôl at y Bartneriaeth gyda'r gofyniad y dylid monitro benthyg stoc yn ofalus.

(c) Trafododd y Pwyllgor yr ymateb i'r ymgynghoriad anffurfiol a dirprwywyd newidiadau a gytunwyd arnynt i Reolwr Cronfa Bensiynau Clwyd.

## 46. DIWEDDARIAD LLYWODRAETHU

Cadarnhaodd Mr Latham eu bod yn symud ymlaen ar eitem 1.01 a bod cyfweliadau ar gyfer Cyfrifydd a Swyddog Cefnogi Llywodraethu yn cael eu cynnal fory, byddant yn cael eu hysbysebu drwy'r swydd raddedig yn fuan. Dywedodd Mr Everett eu bod wedi bod yn gweithio'n galed ar y swyddi a'r broses o ail-drefnu staff.

Amlygodd Mr Latham dudalen 117 a'r gwaith mae Bwrdd Cynghori'r Cynllun yn ei wneud a'i bwysigrwydd gan ei fod yn effeithio ar y Gronfa.

Rhoddodd Mr Middleman ddiweddariad ar y Fargen Deg, gan amlygu y bu ymgynghoriad a bod ymateb drafft yn y papurau er mwyn cytuno arno mewn egwyddor. Rhoddodd Mr Middleman drosolwg o gefndir y Fargen Deg, gan nodi ei bod yn ymwneud â gwarchod hawliau gweithwyr sy'n cael eu tynnu o'r sector cyhoeddus at gyflogwr sector preifat. Ar hyn o bryd maent yn aros yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol neu'n newid i gynllun sy'n cynnig buddion sy'n "weddol gymharol" i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Lleol fel y tystiwyd gan actiwari. O dan y Fargen Deg newydd bydd y llwybr gweddol gymharol yn diflannu.

Mae’r cwestiynau a ofynnwyd ac a atebwyd wedi eu nodi o dudalen 134. Mae'r ail gwestiwn yn trafod y diffiniad o gyflogwr Bargen Deg, sef yr holl gyrff cyhoeddus ar wahân i gyflogwyr addysg bellach ac addysg uwch. Mewn ymateb, mae’r Gronfa wedi gwneud sylw bod hyn yn ymddangos yn rhesymol ond bod anghysondeb posib sydd angen ei gadarnhau os taw hyn yw’r bwriad.

Mae Cwestiwn 3 yn ymwneud â threfniadau pontio, er enghraifft beth sy’n digwydd i’r rheiny sydd mewn cynllun gweddol gymharol pan fydd y contract yn dod i ben. Bydd eu pensiwn a’u hawliau yn cael eu trosglwyddo’n orfodol yn ôl i’r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, sydd yn cynyddu risgiau a chostau posib i gyflogwyr gan y byddant yn cael eu trosglwyddo trosodd ar sail unigol, a all fod yn hael i unigolion oherwydd y rhagdybiaethau a ddefnyddir o'i gymharu â'r trosglwyddiad a gynigir. Yn flaenorol, byddent yn cael eu trosglwyddo “gyda’i gilydd” mewn dull a fyddai fel arfer yn gwarchod y cyflogwr ond yn rhoi canlyniad teg i’r aelodau hefyd. Dywedodd Mr Middleman nad oedd llawer o gynlluniau gweddol gymharol felly yn gyffredinol ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gallai fod yn rhywbeth y gellid ei ddioddef er mwyn ei wneud yn syml i’w weithredu.

Dywedodd Mr Middleman bod elfen allweddol yr ymgynghoriad ar dudalen 136, sy'n trafod cyflwyno “statws cyflogwr tybiedig”. Pe bai’r Cyngor yn rhoi gwasanaethau ar gontractau allanol, yna gallai’r Cyngor fod yn “gyflogwr tybiedig” ac ni fyddai angen cytundeb derbyn na bond ar y cyflogwr allanol.

Tra byddai’r llwybr corff derbyniedig yn dal i fod ar gael, byddai hyn yn symleiddio’r broses yn yr achosion lle mae’r Cyngor yn cytuno i gymryd yr holl risg. Byddai hyn yn golygu na fyddai angen cyfrifiad dyled ymadael. Fodd bynnag, nododd Mr Middleman y dylid parhau i ddogfennu perthynas y cyflogwr newydd yn llawn gan fod yn rhaid iddynt barhau i dalu cyfraniadau i'r Gronfa. Mae hyn yn ei gwneud yn hanfodol bwysig i gyflogwyr yn y Gronfa fod a pholisïau clir fel y gall pob parti ddeall eu rhwymedigaethau a dylai hyn fod yn rhan o’r broses ar gyfer unrhyw gontract rhwng y cyflogwr a’r contractwr (neu unrhyw endid a dderbyniwyd yn y dull hwn).

Dywedodd Mr Middleman mai’r llwybr mwyaf effeithiol fyddai pe bai’n rhaid i gyflogwyr wneud ystyriaethau pensiwn yn rhan o’r broses gaffael er mwyn sicrhau bod hynny yn cael ei drin yn syth ac yn cael ei ddeall yn llwyr. Yn ddelfrydol gellid newid y Rheoliadau caffael er mwyn cyflawni hyn, ond byddai’n anodd gorfodi'r newid hwnnw. Cytunodd Mr Everett ond nododd bod modd ei weithredu drwy bolisi'r Cyngor ar drosglwyddo gwasanaethau. Cytunodd Mr Middleman gan nodi y gallai sicrhau hynny fod yn anodd.

Nododd Mr Middleman bod yr ymgynghoriad arfaethedig hefyd yn cynnwys rhai pwyntiau am y broses o uno cyflogwyr. Dywedodd y dylai fod rhyw fath o ganiatâd ar gyfer awdurdod sy'n derbyn. Er enghraifft os yw cyflogwr yn trosglwyddo o Gronfa arall i Gronfa Bensiynau Clwyd, os yw’n methu yna mae’r risg wedi ei drosglwyddo i drethdalwyr Clwyd.

Gofynnodd Mr Hibbert am ddiffiniad o gynllun gweddol gymharol ac a allai olygu cynllun cyfraniad diffiniedig, gyda chyfraniadau bach (e.e. 1%) a delir gan y cyflogwr a’r cyflogai. Eglurodd Mr Middleman y gallai gweddol gymharol fod yn gynllun sector preifat sy’n darparu buddion sy’n atgynhyrchu strwythur buddion y

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn llwyr, ond heb sicrwydd y trethdalwyr. Gallai hefyd fod yn gynllun â Buddion Diffiniedig gyda buddion sydd â gwerth actiwaraidd cyfwerth i sicrhau bod y buddion yn “weddol gyfwerth”. Mae’n gofyn am ardystiad actiwaraidd o gymaroldeb gweddol. Ni allai hyn fod yn gynllun DC.

Nododd Mr Latham bod y cyflwyniad ar dudalen 149 yn sôn am ofynion cyfrifeg. Rhaid i gyflogwyr gynnwys dyledion pensiynau yn eu cyfrifon a allai achosi problemau wrth wneud ceisiadau am gontractau. Gallai’r llwybr cyflogwr tybiedig olygu nad oes rhaid iddynt ddangos y rhwymedigaeth hon ar eu mantolen, felly mae’n iawn gofyn y cwestiwn hwn. Fodd bynnag, mae’n disgwyl mai’r ateb fydd bod angen eu cynnwys.

Arweiniodd Miss Gemmell y Pwyllgor drwy’r sleidiau rheoli costau. Nodwyd bod y broses reoli nawr ar stop oherwydd dyfarniad McCloud, sef achos sydd wedi ei ddwyn yn erbyn y Llywodraeth ar sail gwahaniaethu ar sail oed, sy’n ymwneud â gwarchod aelodau pan newidiodd cynlluniau sector cyhoeddus eu strwythurau buddion yn 2014 neu 2015. Roedd yr her yn ymwneud â Chynlluniau Barnwyr ac Ymladdwyr Tân. Y canlyniad oedd y canfuwyd bod yr amddiffynfeydd yn wahaniaethol. Mae’r Llywodraeth yn ystyried apêl, a allai gymryd mwy na 12 mis i’w ddatrys. Os yw’r Llywodraeth yn derbyn y dyfarniad neu’n aflwyddiannus yn yr apêl, byddai hynny yn golygu costau ychwanegol i’r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, wedi ei ôl-ddyddio i 1 Ebrill 2014 o leiaf, ac ailasesiad o’r canlyniadau rheoli costau. Pe bai’r Llywodraeth yn ennill yr apêl byddai’r broses rheoli costau yn ail ddechrau a gellid ôl-ddyddio unrhyw newidiadau i 1 Ebrill 2019, sydd ddim yn ddelfrydol o safbwynt gweinyddol.

Gofynnwyd i Awdurdodau Gweinyddu sut dylid ymdrin â hyn ym mhrisiad 2019. Yn benodol, a fyddai’n well ganddynt benderfynu eu hunain ynglŷn â sut i ddelio â dyfarniad McCloud (er enghraifft, yn y prisiau actiwaraidd, mewn cyfrifiadau ymadael ac ati) neu a fyddai’n well ganddynt gael cyfarwyddyd canolog y dylai pob cronfa eu dilyn yn gyson. Dylid anfon ymateb gan y Cronfeydd erbyn 1 Mawrth 2019. Barn Mr Middleman yw y byddai dull gweithredu yn ôl cyfarwyddyd yn well er mwyn rhoi cysondeb ar draws y Cronfeydd, ond nad yw am i'r cyfarwyddyd fod yn rhy llym gan fod angen i bob Cronfa ystyried amgylchiadau lleol. Nododd Mr Middleman hefyd y gallai costau dyfarniad McCloud fod yn uwch nag effaith rheoli costau cychwynnol i gyflogwyr a bod y budd yn fwy gwerthfawr i aelodau iau.

Dywedodd Mrs McWilliam y bydd hyn yn achosi cymhlethdod i aelodau a chyflogwyr, yn arbennig os yw'r budd-daliadau yn cael eu hôl-ddyddio. Bydd yr effaith ar y tîm gweinyddol hefyd yn fawr. Cytunodd Mr Middleman a nododd y byddai gweithredu newidiadau cyfraniadau gweithwyr wedi eu hôl-ddyddio yn gymhleth. Dywedodd bod y broses rheoli costau yn llai o faich na goblygiadau achos McCloud, os dywedir eu bod yn anghyfreithlon.

Gofynnodd Mr Jones a oedd hyn wedi ei gynnwys yn y gofrestr risg. Cadarnhaodd Mrs McWilliam bod y gofrestr risg wedi ei chadw ar lefel uchel yn fwriadol, roedd un o’r adrannau’n ymwneud â risgiau cenedlaethol ac felly roedd hyn wedi ei gynnwys.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor wedi ystyried y wybodaeth ddiweddaraf a gwneud sylwadau.

(b) Bod y Pwyllgor wedi cytuno i ymestyn y contract Custodian presennol hyd nes nad oedd ei angen bellach oherwydd cyfuno asedau.

(c) Ystyriodd y Pwyllgor yr ymatebion arfaethedig i'r ymgynghoriad Bargen Deg, gan amlygu unrhyw newidiadau yr hoffent eu gwneud a chytunwyd y gellid cyflwyno'r ymateb i MHCLG, yn ddibynnol ar ddirprwyo ymgorffori unrhyw newidiadau pellach a gytunwyd arnynt i Reolwr Cronfa Bensiynau Clwyd.

47. **<u>DIWEDDARIAD CYNLLUN PENSIWN LLYWODRAETH LEOL</u>**

Dywedodd Miss Gemell gan fod y pwyntiau allweddol o fewn y diweddariad yn cael eu cynnwys o fewn eitemau Llywodraethu o dan yr eitem flaenorol ar yr agenda, doedd dim angen trafod gweddill y diweddariadau o fewn y cyfarfod.

**<u>PENDERFYNWYD:</u>**

(a) Bod holl aelodau'r Pwyllgor yn nodi'r adroddiad hwn ac yn hysbysu eu hunain o'r wybodaeth ynglŷn â'r materion presennol oedd yn effeithio ar y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, rhai ohonynt yn berthnasol i weithrediad y Gronfa.

48. **<u>DIWEDDARIAD GWEINYDDU PENSIWN / CYFATHREBU</u>**

Cyflwynodd Ms Meacock ei hun i'r Pwyllgor ac eglurodd mai hi bellach yw'r Prif Swyddog Pensiynau ar gyfer rheoliadau a chyfathrebu. Rhoddodd Ms Meacock ddiweddariad ar y prif bwyntiau yn yr eitem hon ar yr agenda. Mae'r prosiect crynhoi wedi ei ymestyn oherwydd Prosiect Apple a symudiad adnoddau. Mae'r tîm technegol wedi bod yn gweithio ar 980 o ymholiadau gan Mercer, a'r nod yw gwella safon data cyn prisiad actiwaraidd 2019. Mae'r gwaith ar iConnect yn mynd rhagddo. Mae Mrs Williams ar grŵp meincnodi'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifiaeth ac mae adrodd ar y dangosyddion perfformiad allweddol (KPIs) wedi ei drafod dros amser, bydd y KPIs yn newid yn unol â thrafodaethau yn y grŵp.

Nododd Ms Meacock bod y swydd swyddog cyfathrebu wedi ei llenwi bellach a bod ymgeisydd mewnol wedi ei benodi, sy'n golygu felly bod swydd wag arall o fewn y tîm. Roedd un o'r swyddogion cyflogau rhan amser wedi ymddeol felly mae swydd wag yn y tîm technegol hefyd sydd angen ei llenwi. Bydd y Prif Swyddog Pensiynau yn canolbwyntio ar lenwi'r swyddi gwag hyn dros yr wythnosau nesaf.

Gofynnodd Mr Hibbert am y llinell binc yn y KPIs ac a yw hyn yn ymwneud â'r nifer o swyddi sy'n dod i mewn. Dywedodd Mrs McWilliam bod y llinell binc yn ymwneud â'r nifer o achosion sydd wedi eu cwblhau o fewn y mis, yn hytrach na'r nifer o achosion newydd. Er enghraifft, cwblhawyd 340 o achosion ymadael ac roedd 63% o fewn yr amserlenni cyfreithiol.

Gofynnodd y Cynghorydd Jones beth oedd 24.92% ar dudalen 223 yn ei olygu gan nad yw'n clymu gyda'r nifer o gofnodion yn y Gronfa. Cadarnhaodd Ms Meacock bod amryw gofnodion ar gyfer rhai aelodau, er enghraifft os oes ganddynt amryw o swyddi, ond mae'r mesur hwn yn ymwneud â'r nifer o wir aelodau, yn hytrach na chofnodion, sydd wedi cofrestru ar gyfer hunan wasanaeth aelodau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r holl swyddogion am ddal i ymgymryd â gwaith y Rheolwr, a chadw pethau ar y trywydd iawn mewn cyfnod heriol.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor wedi ystyried y wybodaeth ddiweddaraf a gwneud sylwadau.

49. **DIWEDDARIAD AR FUDDSODDI AC ARIANNU**

Amlygodd Mrs Fielder y prif feysydd sef y cyfrifoldebau a ddirprwywyd a throsglwyddo asedau i'r gronfa. Roedd gofynion llif arian ym mis Rhagfyr 2018 ac felly mae'r Gronfa wedi adbrynu £10 miliwn o'r sicrwydd cyfochrog o fewn mandad Insight. Mae llif arian yn parhau i gael ei fonitro.

Dywedodd Mrs Fielder hefyd wrth y pwyllgor am gynllun prisiad actiwaraidd 2019 a'r amserlenni.

Diolchodd y Cadeirydd i Mrs Fielder a'i thîm am barhau i reoli'r adran er y swyddi gwag.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor wedi ystyried yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â chyfrifoldebau dirprwyedig a'u nodi, yn ogystal â rhoi sylwadau.

(b) Bod y Pwyllgor wedi nodi'r amserlenni ar gyfer cynllun prisiau 2019 ac yn deall y meysydd lle bydd angen cymeradwyaeth y Pwyllgor.

50. **DIWEDDARIAD ECONOMAIDD A'R FARCHNAD**

Rhoddodd Mr Harkin ddiweddariad bras ar yr eitem hon ar yr agenda. Soniodd am dudalen 257 oedd yn dangos y lefel o ansefydlogrwydd a welir yn Ch4 2018, yn enwedig ym mis Hydref a Rhagfyr. Mae marchnadoedd America wedi eu heffeithio gan fraw heintus ynglŷn â diwedd esmwytho meintiol, a hefyd mae'r marchnadoedd wedi cael eu heffeithio gan bryderon parhaol ynglŷn â Brexit. Ers 31 Rhagfyr, mae'r marchnadoedd wedi eu hadfer bron i'r sefyllfa roeddynt ynddi cyn mis Rhagfyr. Mae arenillion gilt wedi cwympo yn y chwarter hwn sydd yn broblem i'r DU. Nododd Mr Harkin bod ansefydlogrwydd yn debygol o barhau am beth amser.

Soniodd y Cynghorydd Jones am dudalen 262, lle nodir bod Japan yn dod yn darged i Weinyddiaeth Trump yn 2019 oherwydd yr anghydbwysedd yn y sector Ceir. Soniodd am y newyddion diweddar am safle Honda yn Swindon oedd yn cyd-fynd â hyn.

Nododd Mr Everett bod y raddfa twf ar gyfer y DU wedi ei hisraddio gan Fanc Lloegr ar gyfer y tair blynedd hyd at 2022.

Dywedodd Mr Harkin bod yr oedi gyda Brexit yn golygu bod cwmnïau eisoes wedi gwneud penderfyniadau ar sut i ddelio ag ef, er nad ydynt yn gwybod beth fydd y canlyniad.  Mae hyn yn ei hun yn creu ansicrwydd yn yr economi, ac o ganlyniad i hynny, yn y marchnadoedd.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi a thrafod y Diweddariad am yr Economi a'r Farchnad ar 31 Rhagfyr 2018.

(b) Nodi sut yr oedd gwybodaeth yn yr adroddiad yn "gosod y llwyfan" yn effeithiol ar gyfer beth y dylai'r Pwyllgor ddisgwyl ei weld yn adroddiad cryno Strategaeth Fuddsoddi a Rheolwyr o ran perfformiad portffolio asedau'r Gronfa.

51. **CRYNODEB O'R STRATEGAETH FUDDSODDI A RHEOLWYR**

Rhoddodd Mr Buckland ddiweddariad bras ar yr eitem hon ar yr agenda cyn cymryd cwestiynau. Y peth cyntaf a nododd oedd bod y chwarter hyd at 31 Rhagfyr 2018 wedi bod yn un gwael. Fodd bynnag, yn y flwyddyn hyd at 31 Rhagfyr bu'n weddol fflat, oedd yn dangos ansefydlogrwydd parhaol y marchnadoedd. Siaradodd drwy dudalen 277, gan nodi bod credyd preifat yn fuddsoddiad newydd a fydd yn cymryd amser i ymrwymo iddo'n llwyr, a bod Grŵp Rheoli Risg y Gronfa, oedd yn cynnwys JLT, Mercers a swyddogion y Gronfa ar hyn o bryd yn edrych ar reoli sicrwydd cyfochrog portffolio LDI a reolir gan Insight. Mae marchnadoedd preifat mewnol yn perfformio'n well na'u targedau lle mae cronfeydd rhagfantoli a thwf amrywiol yn tangyflawni yn erbyn y meincnod. Nododd Mr Buckland bod enillion chwarterol dros 2019 wedi bod yn anghyson iawn ond amlygodd bod y Gronfa yn fuddsoddwr tymor hir a bod y perfformiad dros dair blynedd yn gadarnhaol sef 8.8% y flwyddyn. Nododd hefyd bod yr enillion ers 31 Rhagfyr wedi bod yn gadarnhaol a bod asedau wedi cynyddu o £1,784 miliwn i £1,821 miliwn ers diwedd Ionawr 2019.

Soniodd Mr Everett am yr ansefydlogrwydd hyd at y prisiad actiwaraidd a fyddai'n bryder o ystyried yr anawsterau i gyllidebau cyflogwyr, er iddo nodi bod trafodaethau ar hyn wedi bod o gymorth wrth gynllunio. Fe wnaeth atgoffa'r Pwyllgor y dylent gofio eu rôl cronfa bensiynau wrth wneud penderfyniadau am hyn ar y Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi a thrafod y strategaeth fuddsoddi a pherfformiad rheolwyr yng Nghrynodeb y Strategaeth Fuddsoddi a Rheoli 31 Rhagfyr 2018.

(b) Bod y Pwyllgor wedi ystyried y wybodaeth ddiweddaraf yn adroddiad Diweddariad yr Economi a'r Farchnad, i ategu'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn.

52. **DIWEDDARIAD CYLLIDO A LLWYBR CYRRAEDD TARGED**

Nododd Mr Middleman y lefel o ansefydlogrwydd yn y marchnadoedd yn ddiweddar a sut roedd hynny wedi effeithio sefyllfaoedd cyllido. Roedd y lefel cyllido yn 86% ar ddiwedd Rhagfyr 2018, wedi codi i 89% ar ddiwedd Ionawr 2019 a bellach i fyny at 91%. Tra bo'r lefel cyllido yn ansefydlog, nododd mai'r prif beth oedd y rhagolwg ar gyfer y dyfodol a beth fydd Brexit yn ei wneud i'r economi ac enillion uwch chwyddiant. Mae'n bwysig nodi bod y fframwaith llwybr cyrraedd targed yn gweithio a bod y dull diogelu ecwiti wedi cyfrannu'n gadarnhaol pan gwympodd y marchnadoedd.

Siaradodd Mr Middleman am y rhaeadr sicrwydd cyfochrog sy'n golygu gwneud i'r fframwaith weithredu mor effeithiol â phosib. Fe nodwyd £100 miliwn o sicrwydd y gellid ei ryddhau a'i ddefnyddio'n fwy effeithiol i gynyddu enillion disgwyliedig. Arwyddwyd yr holl ddogfennau a disgwylir y bydd y rhaeadr yn cael ei roi ar waith erbyn diwedd y mis. Mae tudalen 288 yn nodi'r rhesymau pam bod y Gronfa yn gwneud hyn, sef er mwyn cynnal yr un lefel o reolaeth risg ym mandad LDI ond ailstrwythuro er mwyn gwneud y mwyaf o enillion. Disgwylir i'r dull hwn gynhyrchu arenillion ychwanegol o £3 miliwn y flwyddyn.

Nid yw'r adroddiad yn cynnwys effaith Brexit a pha mor gryf yw'r Gronfa o ystyried beth allai ddigwydd. Mae'r Gronfa yn amrywiol iawn ac mae dulliau diogelu mewn lle er mwyn ymdrin mor dda â phosib gyda'r rhan fwyaf o risgiau ar wahân i arian cyfred. Fodd bynnag mae hyn wedi ei drafod yn y FRMG a'r Grŵp Llywio a chytunwyd arno dros dro er mwyn gweithredu mantoli cyfredol ar lefel o 50%. Bydd hyn yn "bancio" peth o'r enillion sydd eisoes wedi eu gwneud. Bydd canlyniad hyn yn cael ei adrodd mewn mwy o fanylion mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

Gofynnodd Mr Everett o le daw'r term 'collateral waterfall'. Cadarnhaodd Mr Middleman bod y rhaeadr yn ymwneud â dal sawl math gwahanol o asedau (y tair haen y cyfeirir atynt yn yr adroddiad) a ddefnyddir ar adegau gwahanol fel bod yr asedau â'r enillion mwyaf yn cael eu defnyddio olaf, gan gynyddu enillion cyffredinol.

Gofynnodd Mr Everett am fwy o wybodaeth ynglŷn â beth yn union yw hyn a chadarnhaodd Mr Middleman y bydd mwy o wybodaeth yn cael ei chynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Cytunwyd hefyd y bydd tua £30 miliwn yn cael ei dynnu o'r QIAIF Insight er mwyn ei fuddsoddi mewn seilwaith yn unol â chyfarwyddyd JLT maes o law.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn nodi'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â chyllido a'r sefyllfa o ran mantoli ar gyfer y Gronfa, a'r cynnydd a wnaed ar y gwahanol elfennau o'r Fframwaith Rheoli Risg.

(b) Nododd y Pwyllgor fod y Swyddogion yn gweithio â'u hymgynghorwyr er mwyn cadarnhau proses rhaeadru sicrwydd cyfochrog gydag Insight fel y gellid rheoli'r gofynion sicrwydd cyfochrog yn well. Mae Insight yn y broses o weithredu'r broses rhaeadru sicrwydd cyfochrog a fydd yn ei lle erbyn

Chwefror 2019. Cytunwyd hefyd y bydd tua £30 miliwn yn cael ei dynnu o’r QIAIF Insight er mwyn ei fuddsoddi mewn seilwaith yn unol â chyfarwyddyd JLT maes o law.

53. **DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD I WYBODAETH) 1985 – YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A’R CYHOEDD**
**PENDERFYNWYD:**

Gwahardd y wasg a’r cyhoedd o weddill y cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol yn rhinwedd gwybodaeth eithriedig dan baragraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y’i diwygiwyd).

54. **PROBLEMAU TALIADAU ‘CARE’ CYFLOGWYR**

Cyflwynodd Mr Latham yr eitem hon ar yr agenda ond nododd mai Ms Robinson sy’n arwain y prosiect. Gwnaed cynnydd da ar y cyfrifiadau ac mae nifer sylweddol o lythyrau eisoes wedi eu hanfon at aelodau. Nid ydynt wedi derbyn cwynion swyddogol, sy’n arwydd da, a dim ond pum ymholiad a dderbyniwyd gan aelodau'r cynllun.

Nododd Mr Latham yr effaith ariannol gyffredinol isel ond pwysleisiodd mai’r nod allweddol yw sicrhau bod aelodau’r cynllun yn cael eu trin mor gadarnhaol â phosib o ystyried sensitifrwydd y mater. Cadarnhaodd Mr Latham bod y grŵp prosiect wedi bod mewn cyswllt parhaol â'r Rheoleiddiwr Pensiynau oedd i’w weld yn fodlon â’r datrysiad. Mae Mr Latham yn disgwyl y bydd yn cymryd tan ddiwedd Chwefror i gwblhau’r rhan fwyaf o’r cyfrifiadau a’r cyfathrebu, gydag ychydig o achosion cymhleth yn cymryd tan ddiwedd Mawrth. Mae ganddynt alwad gyda’r Rheoleiddiwr Pensiynau ar 6 Mawrth ac yn gobeithio cau’r achos gyda’r TPR bryd hynny.

Nododd Mr Latham bod datrysiad wedi ei ychwanegu at y system gyflogau sydd ar hyn o bryd yn cael ei brofi ac maent yn parhau i weithio gyda thîm cyflogau'r Cyngor ar hyn.

Dywedodd Mr Everett ei fod yn gwerthfawrogi'r holl waith sydd wedi ei wneud hyd yn hyn a nododd bod yr undebau wedi bod o lawer o gymorth gyda'r broses a'r cyfathrebu gydag aelodau.

Amlygodd Mrs McWilliam yr wybodaeth ddiweddaraf i’r Pwyllgor. Cadarnhaodd mai dim ond 52 o achosion sydd ar ôl i’w cyfrifo a bod tua 1200 o achosion wedi eu cwblhau hyd yma. Ar hyn o bryd maent yn y cam gwirio fel y gellir cyfathrebu pan fydd angen. Cadarnhaodd mai’r gostyngiad gros mwyaf i bensiwn blynyddol oedd £99 y flwyddyn.

Diolchodd y Cadeirydd i’r tîm sydd wedi bod yn gweithio ar y prosiect mawr hwn gan fod hynny yn ychwanegol i’w gwaith o ddydd i ddydd. Nododd y Cadeirydd ei bod yn amlwg bod cynnydd gwych wedi ei wneud ers y diweddariad diwethaf a’i fod yn falch nad oedd unrhyw gwynion wedi eu derbyn.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn nodi’r adroddiad.

55. **<u>PENODI DARPARWR ACTIWARAIDD A BUDD-DALIADAU</u>**

Gadawodd Mr Middleman, Mr Harkin, Mr Buckland, Mrs McWilliam a Miss Gemmell yr Ystafell Bwyllgor ar gyfer yr eitem hon ar yr agenda.

Cyflwynodd Mrs Fielder yr adroddiad gan drafod y broses a ddilynwyd ar gyfer caffael Darparwr Actiwaraidd a Budd-Daliadau ar gyfer y Gronfa Bensiynau. Roedd hyn yn cynnwys meini prawf sgorio a sgoriau terfynol ar gyfer y tendrau a dderbyniwyd.

**<u>PENDERFYNWYD:</u>**

(a) Yn seiliedig ar y sgôr a nodir yn yr adroddiad, cytunodd y Pwyllgor i ail benodi Mercer i gyflawni rôl ymgynghorydd actiwaraidd a budd-daliadau i Gronfa Pensiynau Clwyd am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2025 (gyda'r opsiwn i ymestyn am 12 mis pellach hyd at 31 Mawrth 2026).

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod i'r cyfarfod a darparu'r wybodaeth ddiweddaraf, a nododd y cynhelid cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 20 Mawrth. Daeth y cyfarfod i ben am 12:45pm.

……………………………………

**Y Cadeirydd**